

# Taflen Wybodaeth – Cynlluniau Rheoli Maetholion

O 1 Awst 2023, cyn chwalu gwrrtaith bydd angen Cynllun Rheoli Maetholion i fodloni gofynion Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Mae Cynllun Rheoli Maetholion yn adnodd pwysig wrth reoli chwalu gwrrtaith i dyfu cynydu yn effeithlon ac i leihau risg o lygredd.

### Cyfyngiadau uchafswm o nitrogen yn ôl y math o gnwd

- Rhaid i gyfanswm y nitrogen o dail organig a gwrrtaith a weithgynhyrchwyd a roddir i gnwd beidio â mynd dros y cyfyngiadau cnwd a nodir yn y rheoliadau, o ystyried y cyflenwad o nitrogen yn y pridd.

### Cyfyngiadau nitrogen ar gyfer chwalu tail

- Ar draws y daliad i gyd, rhaid i chi beidio â mynd dros gyfyngiad o 170kg o nitrogen i bob hectar o'r holl dail da byw, gan gynnwys tail sy'n cael ei roi yn uniongyrchol gan yr anifail neu trwy chwalu mewn unrhyw flwyddyn galendr (yn dechrau 1 Ionawr).
- Gweithredir cyfyngiad o 250kg i bob hectar o ran chwalu tail organig am unrhyw gyfnod o 12 mis parhaol.

### Ystyriaethau eraill

- Gall chwalu tail a gynlluniwyd effeithio ar eich gofynion o ran storio tail neu slyri.
- Bydd angen i chi ystyried y nodweddion a nodir yn eich map risg a sut y mae'n effeithio ar y tir sydd ar gael i chi ar gyfer chwalu tail organig.
- Gallech ystyried allgludo unrhyw dail sydd dros ben o'ch daliad, neu fewngludo tail ychwanegol os ydych wedi dynodi unrhyw ddiffygion o ran maetholion. Rhaid cofnodi mewngludo ac allgludo tail.

### Cynllunio rheoli maetholion

- Mae Canllawiau ar gyfer Ffermwyr a Rheolwyr Tir Llywodraeth Cymru yn darparu templedi ar gyfer Cynlluniau Rheoli Maetholion, gallwch gadw eich cofnodion eich hun ar yr amod bod meini prawf y rheoliadau yn cael eu bodloni, gan wneud unrhyw ychwanegiadau neu addasiadau yn ôl y gofyn.
- Rhaid i gopïau o Gynlluniau Rheoli Maetholion gael eu cadw am leiafswm o 5 mlynedd a rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio os gofynnir amdanynt.
- Rhoddir eithriadau rhag rhai gofynion cynllunio rheoli maetholion i ffermydd lle mae'r mewnbwn maetholion yn isel.

Gellir gweld Canllawiau ar gyfer Ffermwyr a Rheolwyr Tir Llywodraeth Cymru yn [llyw.cymru/rheoli-tir](http://llyw.cymru/rheoli-tir)